# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 22 Ionawr 2025

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.00 - 09.15)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.15 - 11.05)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.15 - 09.30)

2.1 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Senedd y Dyfodol at y Cadeirydd ynghylch Rheol Sefydlog 18.5: Aelodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

(Tudalennau 1 - 2)

2.2 Ymateb gan Brif Weinidog Cymru i'r Cadeirydd ynghylch Cod y Gweinidogion

(Tudalen 3)

2.3 Diweddariad gan yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Cadeirydd ynghylch Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(Tudalennau 4 - 6)

2.4 Llythyr gan Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol - Llywodraeth Cymru at y Cadeirydd ynghylch penodiadau cyhoeddus

(Tudalen 7)

## Egwyl (09.30 - 09.35)

## 3 Teithio Llesol: sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

(09.35 – 11.05) (Tudalennau 8 – 44)

Kaarina Ruta

Matt Price

Kyle Phillips

John Forsey

Dylan Llewellyn Jones

Briff ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.05)

## Cyfarfod preifat (11.05 – 12.00)

## 5 Teithio Llesol: trafod y dystiolaeth

(11.05 – 11.20)

## 6 Papur i'w nodi

(11.20–11.30)

### 6.1 Ymateb gan Carl James, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol/Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol (Dros Dro) – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre at y Cadeirydd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Tachwedd 2024

(Tudalennau 45 – 165)

## 7 Penodiadau Cyhoeddus: trafod yr adroddiad drafft

(11.30 – 12.00) (Tudalennau 166 – 242)

Adroddiad drafft

**Pwyllgor Senedd y Dyfodol**
—
**Future Senedd Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDyfodol@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDyfodol
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFuture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFuture
0300 200 6565

Mark Isherwood MS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd

4 Rhagfyr 2024

Annwyl Mark,

Rheol Sefydlog 18.5: Aelodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol ("y Pwyllgor") wedi'i sefydlu gyda chylch gwaith i ystyried, ymhlith pethau eraill, y trothwyon a bennir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau y mae eu hangen at ddibenion amrywiol.

Fel y gwyddoch, mae adran 30(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio fod â'r nifer o Aelodau a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Yn unol ag adran 30(2) o'r Ddeddf, mae Rheol Sefydlog 18.5 yn nodi ar hyn o bryd bod yn rhaid i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gynnwys "o leiaf 5 aelod a dim mwy na 10 aelod".

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd a fydd yn fwy o faint, ynghylch a ddylai'r trothwyon rhifol a nodir yn Rheol Sefydlog 18.5:

- aros fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd; neu
- a ddylid eu newid i werth neu werthoedd gwahanol.

Os yw'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol cael ymateb erbyn dydd Gwener 7 Chwefror.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

David Rees AS

Cadeirydd, Pwyllgor Senedd y Dyfodol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

17 Rhagfyr 2024

Annwyl Mark,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 26 Tachwedd yn nodi canlyniadau ymgynghoriad y Pwyllgor ar newidiadau posibl i God y Gweinidogion, gan gynnwys safbwyntiau pellach y Pwyllgor ynghylch natur y newidiadau hynny.

Roeddwn eisoes wedi bwriadu adolygu a diwygio Cod y Gweinidogion yn un o'm tasgau cyntaf fel Prif Weinidog felly mae'n amserol iawn cael barn y Pwyllgor am yr hyn ddylid ei gynnwys. Byddaf yn sicr yn ystyried yr awgrymiadau hyn yn ofalus wrth adolygu'r Cod. Byddaf hefyd, wrth gwrs, yn ystyried datblygiadau diweddar yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban o ran eu Codau hwythau, fel y nodir yn eich llythyr. Ni allaf eich sicrhau y byddaf yn cytuno â holl awgrymiadau'r Pwyllgor, ond gallaf eich sicrhau y byddaf yn ystyried pob un yn ofalus.

Hoffwn ddiolch ichi hefyd am y cyfle i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor. Rwy'n tybio y gallai fod yn anodd imi ddod o hyd i amser i gyfarfod yn y dyfodol agos, a byddai angen imi ddod i gasgliad fy hun ynghylch y Cod yn y lle cyntaf, ond gallai cyfarfod ar ryw adeg yn y dyfodol fod yn ddefnyddiol iawn.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Mr Isherwood,

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22

Ymhellach i'm llythyr dyddiedig 12 Chwefror 2024, ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Argymhelliad 8:

**Argymhelliad 8**
Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM). Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y mae'n ceisio cydymffurfio â hwy wrth lunio ei chyfrifon. Dylai hysbysu'r Pwyllgor hefyd am unrhyw newidiadau i'w phenderfyniadau, neu yng ngoleuni gofynion newydd y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, pan gyhoeddir y cyfrifon. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl cyn Cyfrifon 2023-24.

**Derbyn**
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu manylion y gofynion y FReM y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth baratoi ei chyfrifon yn flaenorol i'r Pwyllgor oherwydd effaith Covid-19 a'r effaith ddilynol ar amserlenni cyfrifyddu ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Mae adnoddau wedi'u blaenoriaethu i'r broses o gynhyrchu cyfrifon a gweithredu safonau cyfrifyddu newydd i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y FReM ar gyfer paratoi ei chyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar FReM ac eithrio pan fo'r gofynion yn gymwys yn benodol i Adrannau Llywodraeth y DU yn unig, neu pan fo eithriadau ar gyfer Llywodraeth Cymru rhag cydymffurfio - i gydnabod bod gan Gymru fel Gweinyddiaeth Ddatganoledig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gyd-destun polisi a rhanddeiliaid gwahanol. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â gofynion dadansoddi perfformiad ac adrodd am gynaliadwyedd.
Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyn i'r Pwyllgor cyn cyfrifon 2023-24, yn awr bod manylion terfynol y FReM ar gyfer 2023-24 wedi'u pennu ym mis Rhagfyr 2023.

Mae gan Lywodraeth Cymru Gyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys EF sy'n ei gwneud yn ofynnol iddi
baratoi cyfrifon yn unol â'r FReM. Mae Cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys tair rhan:

- Yr Adroddiad Perfformiad
- Yr Adroddiad Atebolrwydd
- Y Datganiadau Ariannol

Heblaw lle bo trafodiadau yn 'amherthnasol' ac felly lle nad oes eu hangen ar gyfer datgeliadau o dan egwyddorion y FReM, mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r gofynion y FReM ar gyfer:

- yr Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff, sy'n cyd-fynd â gofynion llywodraethiant Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru; - y Datganiadau Ariannol.

Nid yw'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddilyn y gofynion Adrodd ar Berfformiad, gan gynnwys Adrodd ar Gynaliadwyedd.

Er bod y FReM yn berthnasol i holl gyrff sector cyhoeddus y DU o fewn dosbarthiad y Llywodraeth Ganolog, prif gwmpas y FReM yn ôl maint a gwerth yw endidau sy'n adrodd i Lywodraeth y DU. O'r herwydd, mae gofynion yr Adroddiad Perfformiad ac Adrodd ar Gynaliadwyedd yn canolbwyntio ar olrhain cynnydd ar gynlluniau y cytunwyd arnynt ar gyfer adrodd gan Senedd y DU.

Am y rheswm hwn, mae eithriadau ar waith i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu adrodd mewn modd sy'n adlewyrchu ei statws fel Llywodraeth Ddatganoledig. Rhoddir ystyriaeth yn flynyddol i gyhoeddiadau sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd sy'n adrodd ar ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd ar berfformiad a chynaliadwyedd megis:

- Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru
- Adrodd ar Lesiant Cymru gan gynnwys Dangosyddion Cenedlaethol
- Cyllidebau Llywodraeth Cymru
- Adrodd ar alldro Llywodraeth Cymru
- Adroddiad ar allyriadau carbon Sector Cyhoeddus Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Pan fydd gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus, yn hytrach na dyblygu, defnyddir cyfeirio (yn gyson â'r canllawiau yn y FReM) i gyfeirio defnyddwyr at ble y gellir dod o hyd i wybodaeth. Yn benodol, adroddir ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2023-24 yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru. O gofio'r newidiadau cymharol ddiweddar yn y Prif Weinidog a'r Cabinet, mae angen trafodaeth bellach o ran adrodd ar gyfer 2024-25 i benderfynu a fydd y strwythurau adrodd presennol yn aros fel y maent, a allai effeithio ar gynnwys y Cyfrifon Cyfunol.

Mae cynnwys yr Adroddiad Perfformiad yn canolbwyntio, felly, ar weithgarwch Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Cabinet i gyflawni eu blaenoriaethau ac fe benderfynir arno yn flynyddol ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gofio'r canllawiau yn  y FReM o'r angen i ystyried y ffordd orau o adrodd 'hanes' y flwyddyn ariannol sy'n cael ei hadolygu i greu adroddiad teg, cytbwys a dealladwy.
Mae argymhellion y Pwyllgor yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn benodol, ynghyd â datblygiadau yn yr amgylchedd gweithredu a Llywodraeth Cymru ei hun i sicrhau bod y cwmpas a'r strwythur yn briodol. Mater o farn yw cyflwyno trosolwg cytbwys o weithgareddau blwyddyn i Lywodraeth Cymru o gofio ehangder y gwaith sydd wedi'i wneud  wrth gynnal dogfen hygyrch a hawdd ei defnyddio.

Rwyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor yn croesawu'r datblygiadau yr ydym wedi'u gwneud ar gyfer 2023-24. Mae ffurf y Cyfrifon Cyfunol, strwythur a llif yr Adroddiad Perfformiad, cyflwyno gwariant Grantiau a chyflwyno risgiau corfforaethol yn rhai yn unig o'r datblygiadau a gyflwynwyd gyda'r nod o wella hygyrchedd a defnyddioldeb yr wybodaeth.

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Corporate Services and Inspectorates

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood MS
Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein Cyf/Our Ref: 241219/PBU/TM
20 Rhagfyr 2024

Annwyl Mr Isherwood,

**Penodiadau Cyhoeddus**

Rwyf yn ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y gwaith sy'n cael ei wneud i bennu asesiad iaith Gymraeg aelodau ein bwrdd.

Yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr, byddwn yn anfon arolwg byr at aelodau'r bwrdd i gofnodi eu sgiliau Cymraeg (gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu). Ein nod yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr arolwg hwnnw erbyn diwedd mis Chwefror 2025. Mae hyn yn cyd-fynd â Cham Gweithredu 1.1 o'r Strategaeth Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru ac fe fydd yn ein galluogi i sefydlu llinell sylfaen i lywio camau gweithredu yn y dyfodol. Bydd yr arolwg hwn yn casglu data oddi wrth Gyrff y Sector Cyhoeddus a restrir yn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan ddilyn y Cod Llywodraethiant ar Benodiadau Cyhoeddus.

Byddwn yn ymgorffori hyfedredd yn y Gymraeg mewn ymdrechion casglu data ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol. Mae sgiliau Cymraeg yn agwedd bwysig ar gynrychiolaeth ar ein byrddau, ac rydym yn ymroddedig i adeiladu byrddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru.

Rwyf yn gobeithio y bydd hyn o gymorth i'r Pwyllgor wrth ystyried ei Ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus.

Yn gywir

Tim Moss
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol
Llywodraeth Cymru
Director General and Chief Operating Officer
Welsh Government

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 03000 257829
Tim.Moss@gov.wales

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6.1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon